Dathlu Cyhoeddi Super Furries, Prins Seeiso, Miss Siberia – a Fi

Palas Print,

Nos lau

10 – 11 – 16

7:00pm

“Wrth annerch cynulleidfa yng Nghaernarfon nos lau, bydd Carl Clowes yn adleisio ei bryderon, fel y`i mynegwyd yn ei hunangofiant*, am anghysondeb polisïau datblygu cymunedol yng Nghymru.

Amlygwyd hyn orau y llynedd wrth i Gyngor Gwynedd ac Arolygaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru wrthod un tyrbin gwynt gymunedol ar gyfer pentref Llanaelhaearn, un o`r ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad. Golygodd hyn golli 20 o swyddi a £3m o incwm i un o ardaloedd Cymreiciaf a hynny er gwaethaf cynllun busnes oedd wedi cael sêl bendith Prifysgol Bangor a phob corff cynrychioladol yn yr ardal.

Yn gynharach, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi polisïau oedd yn gefnogol i gynlluniau o`r fath. Yn Rhagfyr 2013 mewn cylchlythyr i bob Awdurdod, dywedodd Carl